

Cofnodion Pwyllgor Dethol Sir Fynwy

Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 26ain Medi, 2019 am 10.00 am

Cynghorwyr Yn Bresennol

Cynghorydd Sir L.Dymock (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir A. Webb (Is-Gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, A. Easson, L. Guppy,
R. Harris, V. Smith and J.Pratt

Cynghorwyr Sir Hefyd yn Bresennol:

Swyddogion Yn Bresennol

Mark Howcroft, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid
Hazel Clatworthy, Sustainability Policy Officer
Matthew Gatehouse, Head of Policy and

Governance

Dave Loder, Finance Manager

Sally Thomas, HR Manager

Mark Cleaver, Environmental Officer

Rob O'Dwyer, Head of Business Transformation

Carl Touhig, Head of Neighbourhood Services

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Sir: J.Treharne

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Cyhoeddus Agored

Ni wnaeth unrhyw aelod o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor fel rhan o'r fforwm agored cyhoeddus.

3. Adroddiad Monitro'r Gyllideb: Mis 2 (Craffu Chwarterol)

- Mae'r Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yn ystyried ffyrdd newydd o adrodd er mwyn rhoi lefel uwch o ddealltwriaeth i Aelodau tra'n ceisio symleiddio adroddiadau, a bydd yn cyfarfod â chadeiryddion pwyllgorau dethol fel rhan o'r gwaith hwn.
- Ar hyn o bryd mae diffyg cyffredinol o £2.4 miliwn. Mae gorwariant cyffredinol gwerth £750,000 o fewn y portffolio hwn ac mae rhai arbedion nad ydynt wedi'u canfod.
- Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chyflwyno yn unol â'r gyllideb ond bydd angen llithro ymlaen rywfaint o'r gwariant ar gynllun Heol Crug.
- Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ddefnydd y cronfeydd wrth gefn yn 2019-20. Ar hyn o bryd, mae lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn 3.19% o wariant net y gyllideb, sy'n is na'r lefelau priodol, sef 4%-6%, ond dylai'r dyfarniad untro ar gyfer TAW helpu i ailgyflenwi'r rhain.

Her yr Aelodau

- Mewn ymateb i fewnbwn gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, trafododd y Pwyllgor hygyrchedd adroddiadau ariannol i'r rhai nad ydynt yn gyfrifyddion, a bu cais am ragor o hyfforddiant a chrynodebau. Cytunwyd y byddai'r opsiynau hyn yn cael eu harchwilio mewn cyfarfod â chadeiryddion pwyllgorau dethol.

- Heriodd yr Aelodau berfformiad ariannol buddsoddiadau masnachol a'r effaith ar gyllid y cyngor. Clywodd yr Aelodau fod costau ariannu Castlegate wedi'u diogelu ond bod yna lleoedd rent ar osod yn wag, gyda deiliadaeth o tua 65%, sy'n golygu nad yw'r awdurdod yn cyrraedd targedau incwm. Bydd gwybodaeth am fuddsoddiad masnachol yn cael ei derbyn gan y pwyllgorau buddsoddi ac archwilio
- Holodd y Pwyllgor a oedd yn iawn terfynu deiliadaeth grŵp y theatr gerddorol ar y safle. Atgoffwyd yr Aelodau bod angen ystyried yr unedau fel buddsoddiad masnachol yn hytrach na fel asedau gweithredol sy'n gysylltiedig â chyflawni ein diben
- Holodd yr Aelodau ynghylch y posibilrwydd o gynyddu incwm ymhellach o ynni adnewyddadwy. Clywodd yr Aelodau fod tariffau bwydo i mewn wedi gostwng felly nid yw ynni haul mor ddeniadol ag o'r blaen er bod technoleg bellach yn rhatach. Mae diffyg capasiti yn y seilwaith cenedlaethol i gymryd mwy o bŵer ac efallai y bydd angen i'r Cyngor fod yn gwmni ynni er mwyn oresgyn hyn neu glymu ffermydd ynni haul i mewn gyda datblygiadau tai newydd.
- Heriodd yr Aelodau a oeddem yn bod yn rhy uchelgeisiol gyda thargedau arbedion Sir Fynwy yn y dyfodol. Clywodd yr Aelodau fod y gyllideb hon yn cael ei defnyddio fel cyfrif cynnal nes bod yr arbedion yn cael eu dyrannu i gyllidebau unigol.
- Ceisiodd yr Aelodau ddeall y manteision masnachol sydd ar gael o'n gallu fel corff cyhoeddus i gynhyrchu incwm. Clywodd yr Aelodau fod y Bwrdd Benthyciadau Gweithfyedd Cyhoeddus yn rhoi mynediad i ni at gyfraddau llog ffafriol. Fodd bynnag, rydym bob amser yn edrych ar ein hadnoddau ein hunain (benthyca mewnol) cyn edrych i'r tu allan.

Canlyniadau

- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o eglurder gyda'r adroddiadau gan ychwanegu crynodeb gweithredol a bydd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yn cyfarfod â chadeiryddion y Pwyllgorau Dethol i fynd â hyn yn ei flaen
- Heriodd yr Aelodau y targedau arbedion a pherfformiad masnachol yr awdurdod a chawsant ymatebion i ystod eang o gwestiynau

4. Gwasanaethau Pobl: Diweddariad blynyddol ar absenoldeb salwch a rheoli presenoldeb

- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ynghyd â'r Adran Gweithrediadau sydd â'r lefelau uchaf o absenoldeb
- Y tri rheswm pennaf dros absenoldeb oedd iechyd meddwl, heintiau a chyfnodau yn yr ysbyty gyda iechyd meddwl yn cyfrif am 22% o'r absenoldebau
- Mae'r data iechyd meddwl wedi'i ddadansoddi o fewn yr adroddiad i rannu'r prif ffigur yn faterion sy'n ymwneud â gwaith a materion personol yn ymwneud â phryder a straen.

Her yr Aelodau

- Mynegodd yr Aelodau bryderon am staff yn derbyn galwadau ffôn ymosodol a chlywsant am yr arferion sydd ar waith i gefnogi staff.
- Heriodd yr Aelodau lefel yr ymateb i alwadau ffôn a negeseuon e-bost mewn rhai rhannau o'r sefydliad. Rhoddwyd y dasg i'r Pennaeth y Gwasanaeth baratoi adroddiad ar hyn ar gyfer y Pwyllgor. Codwyd materion hefyd gyda systemau TGCh ar gyfer yr Aelodau a chafodd yr Aelodau eu hatgoffa mai mater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fyddai hyn
- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am gost ariannol absenoldeb oherwydd salwch a chynigiodd y Rheolwr Gwasanaethau Pobl i ddarparu'r wybodaeth hon i'r Aelodau.

Canlyniadau

- Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Pobl yn darparu'r gost ariannol ar gyfer y ffigur o absenoldeb oherwydd salwch a'r data cymharol ar gyfer cynghorau eraill
- Bydd y Pennaeth Polisi a Llywodraethu'n darparu adroddiad ar drefniadau cyswllt cwsmeriaid

5. Newid Hinsawdd: Craffu y Drafft Ymateb cyn ei gymeradwyo

- Cyflwynwyd ymateb drafft i'r argyfwng hinsawdd i Aelodau yn dilyn gweithdai gyda swyddogion ac aelodau o'r gymuned a oedd wedi nodi mwy na 100 o gamau gweithredu posibl
- Gofynnwyd i'r Aelodau roi eu barn ar y deg amcan drafft ac ymwneud â datblygu polisiâu wrth flaenoriaethu a llunio camau gweithredu posibl i fynd i'r afael â'r rhain.
- Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y newid yn yr hinsawdd na all yr awdurdod lleol wneud hyn ar ei ben ei hun, bydd yn gofyn am gydweithrediad i achub ein planed ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Bydd gwaith parhaus yn cynnwys aelodau o'n cymuned sydd â gwybodaeth wych am y pwnc hwn, yn cynnwys ein hysgolion a'n pobl ifanc

Her yr Aelodau

- Teimlai'r Aelodau y dylid canolbwyntio mwy ar weithio gyda busnesau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod cwmnïau ynni adnewyddadwy lleol wedi cymryd rhan, ond nid y gymuned fusnes ehangach eto, a chlywodd yr Aelodau y byddai caffael corfforaethol yn mynd i'r afael â hyn hefyd.
- Heriodd yr Aelodau y ffordd y cafodd ystadegau eu cyflwyno yn y strategaeth a rhoddwyd y dasg i swyddogion wneud y rhain yn fwy hygyrch.
- Cafwyd trafodaeth am y cysylltiadau rhwng allyriadau cerbydau, ansawdd aer ac effeithiau iechyd a sut y gellid defnyddio'r agenda hon i nodi newidiadau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Cafwyd awgrym hefyd i lobïo Llywodraeth Cymru i newid ei phenderfyniad i beidio â buddsoddi yn yr M4.
- Bu'r Aelodau'n ystyried y cynllun gweithredu drafft ac yn cyfrannu ystod eang o syniadau i'w lunio, a helpu'r cyngor i leihau ei ôl troed carbon drwy gymysgedd o gamau symlach a chynigion hirdymor mwy uchelgeisiol ac arloesol. Pwysleisiodd yr Aelodau fod yn rhaid i'r Cyngor arwain a cheisio dylanwadu yn ogystal â'r hyn y gallwn ei wneud yn uniongyrchol.

Canlyniadau

- Ymgwymerodd aelodau â datblygu polisi gan helpu i flaenoriaethu'r gweithgaredd a fyddai'n rhan o'r cynllun gweithredu a fyddai'n cyd-fynd â'r strategaeth
- Cytunwyd y câi'r strategaeth ddrafft ei dosbarthu i bob cyngor cymuned a thref i'w thrafod a chynnig sylwadau arni.
- Sicrhau bod aelodau pwyllgorau dethol eraill yn ymwybodol o gyfleoedd i gymryd rhan yn y gweithgor.

6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.

7. Blaenraglen gwaith Cymunedau Cryf

Nid oes unrhyw eitemau penodol o'r cyfarfod wedi'u hychwanegu at raglen waith. Gall eitemau a ddisberthir yn dilyn cwestiynau yn yr her heddiw lywio'r rhaglen waith pan fydd aelodau'n eu hystyried.

8. Blaenraglen gwaith y Cabinet a'r Cyngor

Nodwyd Blaenraglen Waith y Cabinet a'r Cyngor.

9. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Gorffennodd y cyfarfod am 12.15 pm